

<SA:SchemeName> – Cytundeb Tenantiaeth

CADWCH Y CYTUNDEB TENANTIAETH HWN ER MWYN CYFEIRIO ATO YN Y DYFODOL.

ENW'R MYFYRIWR: <SD:FullName>

RHIF MYFYRIWR: <SD:StudentID>

Mae'r Cytundeb Tenantiaeth hwn a Rheoliadau'r Breswylfa yn creu ymrwymiad cyfreithiol sy'n **rhwymo'r tenant a enwir uchod a'r Gwasanaethau Preswyl**, Prifysgol Abertawe, Campws Parc Singleton, Abertawe, SA2 8PG, Cymru, y DU. Mae'n rhaid i chi ddarllen a deall y cytundeb hwn cyn ei dderbyn. Caiff y Cytundeb Tenantiaeth hwn ei lywodraethu a'i dehongli yn unol â chyfraith Lloegr a Chymru.

DYDDIADAU'R DENANTIAETH:

Dyddiad Dechrau <SA:LicenceStart>

Dyddiad Gorffen: <SA:LicenceEnd> – 10am

Mae'r denantiaeth hon ar gyfer defnydd llawn a di-dor o'r ystafell ar gyfer y cyfnod llawn fel y nodir uchod. Gwiriwch mai dyma'r dyddiadau dechrau a gorffen cywir ar gyfer eich cwrs, cyn cytuno i'r Cytundeb Tenantiaeth hwn.

DYRANNU YSTAFELL:

Safle: <SA:SchemeName> – Enw'r Neuadd: <SA:BlockName> – Rhif yr Ystafell: <SA:WebRoomName>

Math o Ystafell Wely: <SA:BedroomType> – <SA:RoomType>

Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ddiwygio'r ystafell a neilltuwyd cyn i chi gyrraedd.

FFIOEDD LLETY:

Rhent wythnosol: £<SA:weeklyRent>

Cyfanswm Rhent: <SA:GrandTotal>

Hyd y Contract: <SA:totalWeeks> Wythnosau

Erbyn	Dyddiadau O a Hyd At y Llety	Swm sy'n daladwy
<SA:Period1DueDate#RL>	<SA:Period1FullText#RL>	<SA:Period1Total#RL>
<SA:Period2DueDate#RL>	<SA:Period2FullText#RL>	<SA:Period2Total#RL>
<SA:Period3DueDate#RL>	<SA:Period3FullText#RL>	<SA:Period3Total#RL>
4 Gorffennaf 2019	<SA:Period4FullText#RL>	<SA:Period4Total#RL>

GWYBODAETH BWYSIG AM SUT I DALU

- Mae angen Blaendal Cadw Lle o £350.00 o fewn saith niwrnod er mwyn derbyn y cynnig hwn (bydd hyn yn newid i fod yn dri diwrnod unwaith y bydd y tymor wedi dechrau neu o fewn pythefnos i ddyddiad dechrau'r contract) er mwyn cadarnhau eich lle. Nid oes modd ad-dalu'r Blaendal Cadw Lle os nad ydych yn symud i mewn i'r llety.
 - Unwaith y byddwch wedi cyrraedd, bydd y Blaendal Cadw Lle yn cael ei ychwanegu fel credyd tuag at eich taliad ym mis Mai (neu at rent y tymor olaf os ydych yn fyfyrwr rhan-amser).
 - Anfonir datganiadau at gyfeiriad e-bost prifysgol y myfyriwr, hyd yn oed os yw Rhiant/Gwarcheidwad yn trefnu'r taliad.
 - Mae'n rhaid derbyn taliadau erbyn y dyddiad dyledus, a chyfrifoldeb yr unigolyn a enwir isod yw sicrhau hyn. Os nad ydych yn gallu gwneud taliad, cysylltwch â'r Swyddfa Lety cyn y dyddiad dyledus.
 - Anfonir anfonebau at gyfeiriad e-bost prifysgol y myfyriwr saith niwrnod cyn y dyddiad dyledus, a bydd yn cynnwys Ffioedd Llety ac unrhyw gostau eraill a ychwanegwyd at y cyfrif.
 - Bydd yr Anfoneb yn nodi os ydych wedi trefnu Debyd Uniongyrchol – os nad ydych wedi trefnu Debyd Uniongyrchol, rhoddir cyfarwyddiadau i chi ar sut i dalu eich ffioedd. Gwiriwch yr Anfoneb yn ofalus.
 - Bydd unrhyw daliadau a dderbynnir ar ôl y dyddiadau dyledus hyn yn cynnwys ffi taliad hwyr o £50.00 yn awtomatig.
 - Gweler Rheoliadau'r Breswylfa am fanylion llawn ein Polisi Rheoli Dyled.

8. Unwaith y bydd y denantiaeth wedi dechrau, anfonir yr holl ohebiaeth atoch ynglŷn â'ch llety atoch drwy eich cyfrif e-bost yn y Brifysgol: <SD:StudentID>@abertawe.ac.uk

a) Tenantiaeth am gyfnod penodol yw hon, ac mae'r Brifysgol a'r myfyriwr ill dau'n deall nad oes modd terfynu'r Cytundeb Tenantiaeth hwn cyn y dyddiad a nodir yn y Denantiaeth.

Yr unig eithriad i hyn yw os bydd tenant amgen (myfyriwr presennol nad yw eisoes yn byw ym mhreswylfeydd y Brifysgol) yn dymuno derbyn y cytundeb tenantiaeth. Os cymeradwyr hynny, rhaid talu ffi amnewid o £350.00 cyn y caiff y myfyriwr ei ryddhau o'r denantiaeth.

Manylion am Gerdyn Bwyd Rhagdaledig

Ar gyfer myfyrwyr sy'n byw ym mhreswylfeydd **Cilfái a Rhosili**, rhoddir Cerdyn Bwyd Rhagdaledig i chi yn ychwanegol at eich cyfleusterau cegin. Rhoddir credyd ar eich Cerdyn Bwyd Rhagdaledig bob tymor, sy'n cyfateb i £28.00 yr wythnos er mwyn eich galluogi i brynu prydau bwyd mewn unrhyw un o'r llefydd bwyta ar y campws. Bydd eich Cerdyn Bwyd Rhagdaledig yn barod i'w gasglu o Swyddfa'r Adran Arlwyo yn Nhŷ Fulton ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd. Yr unig beth y mae angen i chi ei wneud yw casglu'r cerdyn o'r Swyddfa Arlwyo ar unrhyw adeg rhwng 9.30am a 2pm o ddydd Llun i ddydd Gwener gyda cherdyn adnabod addas, a byddwn yn rhoi'r cerdyn i chi.

Gwybodaeth am Docynnau Bws

Rhoddir côd rhad ac am ddim ar gyfer MTicket i fyfyrwyr sy'n byw ym Mhentref Myfyrwyr Hendrefoelan ac sydd wedi'u hymrwymo dan gontract am o leiaf 13 wythnos, a bydd hyn yn rhoi'r hawl iddynt deithio'n ddi-dâl ar drafnidiaeth Unibus First Group. Mae modd defnyddio'r tocyn ar ffonau clyfar Apple neu Android yn unig (ni ddarperir y ffonau).

3. ER EGLURDER

At ddiben y Cytundeb Tenantiaeth hwn, diffinnir y termau canlynol fel a ganlyn:

Ystyr Ffioedd Llety	yw cyfanswm yr arian rhent y mae'n rhaid i chi ei dalu ar gyfer Eich Tenantiaeth fel y nodir ym mlwch B uchod.
Ystyr Cynnwys	yw'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn eich preswylfa, cynnwys y fflat a chynnwys yr ystafell.
Ystyr Dyddiadau'r Contract	yw'r cyfnod rhwng dyddiad dechrau a dyddiad gorffen eich Tenantiaeth.
Ystyr Dyddiad Gorffen	yw dyddiad gorffen eich Tenantiaeth fel y nodir uchod.
Ystyr Fflat	yw'r rhan o'r breswylfa y mae eich ystafell wedi'i lleoli ynddi, a gall gynnwys y manau cyffredin yn eich fflat. Os yw eich ystafell yn hunangynhwysol (h.y. chi yn unig sy'n cael defnyddio eich cegin), yna mae 'Fflat' yn cyfeirio at eich ystafell.
Ystyr Mannau cyffredin	yw unrhyw fannau a rennir â phreswylwyr eraill yn y Fflat, gan gynnwys y gegin, y coridorau, yr ystafell ymolchi ac unrhyw fannau cymunedol eraill y mae modd i'r bobl yn y Fflat yn unig eu defnyddio
Ystyr Cynnwys y Fflat	yw'r holl ddodrefn, addurniadau ac offer a ddarperir ar gyfer pob preswlydd yn y Fflat.
Ystyr Landlord	yw'r landlord a enwir uchod, a bydd hefyd yn cynnwys yr Asiant a enwir uchod ac unrhyw gynrychiolwyr awdurdodedig eraill sy'n gweithredu ar ran y Landlord.
Ystyr Cytundeb Tenantiaeth	yw'r cytundeb hwn.
Ystyr Dyddiadau Talu	yw'r dyddiadau y mae'n rhaid i chi dalu'r Landlord ar gyfer eich ystafell, fel y nodir uchod.
Ystyr Rhent	yw cyfanswm yr arian rhent y mae'n rhaid i chi ei dalu ar gyfer eich Tenantiaeth fel y nodir uchod.
Ystyr Blaendal Cadw Lle	yw ffi nad oes modd ei had-dalu, fel y nodir uchod, y mae'r Landlord yn ei chodi i gadw eich ystafell ar gyfer dyddiad dechrau eich Tenantiaeth. Pan fyddwch yn symud i mewn a bod eich Tenantiaeth yn dechrau, caiff ei rhoi fel credyd tuag at eich rhent ar gyfer eich tymor olaf.
Ystyr Preswylfa	yw'r adeilad lle mae eich ystafell wedi'i lleoli fel y nodir uchod.

Ystyr Mannau Cyffredin eich Preswylfa chi a phreswylwyr eraill y Llety	yw unrhyw fannau a rennir â phreswylwyr eraill y Breswylfa gan gynnwys unrhyw ystafell gyffredin, coridorau, manau y tu allan, ac unrhyw fannau cymunedol eraill y mae'r preswylwyr yn eu rhannu.
Ystyr Cynnwys y Breswylfa	yw'r holl ddodrefn, addurniadau ac offer a ddarperir ar gyfer pob preswlydd yn y Breswylfa.
Ystyr Rheoliadau'r Breswylfa	yw rheoliadau'r breswylfa sydd wedi'u hatodi i'r amserlen hon yn y Cytundeb Tenantiaeth.
Ystyr Dyrannu Ystafell	yw'r ystafell neu'r fflat hunangynhwysol y mae modd i chi yn unig eu defnyddio fel preswlydd fel y nodir uchod.
Ystyr Cynnwys yr Ystafell	yw'r dodrefn, addurniadau ac offer a ddarperir ar gyfer eich defnydd chi yn unig yn eich ystafell.
Ystyr Gwasanaethau	yw'r gwasanaethau cyfleustodau trydan, dŵr a charthffosiaeth.
Ystyr Dyddiad Dechrau	yw dyddiad dechrau eich Tenantiaeth fel y nodir ym mlwch A uchod.
Ystyr Myfyriwr	yw unrhyw berson sy'n byw'n gyfreithlon yn llety'r Brifysgol.
Ystyr Cyfnod y Denantiaeth	yw'r cyfnod rhwng dyddiad dechrau a dyddiad gorffen eich Tenantiaeth.
Ystyr Tenantiaeth, Cytundeb Tenantiaeth	yw'r cytundeb hwn.
Ystyr 'Tenant,' 'Chi,' neu 'Neu Eich'	yw'r tenant a enwir uchod.

Hawl i fyw yn y Llety:

9. I ddefnyddio'r Cynnwys
10. I ddefnyddio'r Mannau Cyffredin
11. I ddefnyddio'r Gwasanaethau

Gwasanaethau a Ddarperir:

12. Gwaith atgyweirio yn y Llety
13. Golau a gwres yn y Llety
14. Darparu dŵr cynnes ac oer i'r Llety
15. Darparu cyflenwad trydan i'r Llety
16. Yswiriant ar gyfer strwythur yr adeilad, ei gynnwys, anaf personol ac Atebolrwydd Trydydd Parti
17. Darparu yswiriant cyffredinol ar gyfer eiddo personol fel sydd wedi'i amlinellu yn y polisi

Diffiniadau:

18. Dylid ystyried geiriau unigol hefyd yn eiriau lluosog ac i'r gwrthwyneb
19. Er mwyn bod yn gymwys i fyw yn y llety hwn mae'n rhaid bod unigolyn wedi cofrestru'n fyfyrwr amser llawn
20. Mae'r Brifysgol yn cytuno i ganiatáu, ac mae'r Myfyriwr yn cytuno i dderbyn, yr Hawliau ar gyfer y Cyfnod Preswyl yn unol â'r amodau a osodir yn y Cytundeb Trwyddedu hwn ac yn y Rheoliadau Preswyl.

4. YMRWYMIADAU MYFYRWYR

Cydymffurfio â'r Rheoliadau Preswyl a roddwyd i'r myfyriwr eisoes, ac i hysbysu Gwasanaethau Preswyl am unrhyw newid yn ei amgylchiadau cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl.

4.1 ARIANNOL

21. Talu'r Ffioedd Preswyl i'r Brifysgol cyn neu ar y dyddiadau a nodir uchod.
22. Codir ffi taliad hwyr o £50.00 yn awtomatig ar unrhyw daliadau a dderbynnir ar ôl y dyddiadau uchod.
23. Ni ddylai unrhyw apêl neu gŵyn effeithio ar delerau talu ffioedd llety, oni bai nad yw'r llety ar gael bellach.
24. Yn y sefyllfa hon, bydd y Brifysgol yn hawlio ei chostau a'i threuliau priodol a rhesymol, gan gynnwys ffioedd asiantaeth, ffioedd cyfreithiol a chostau ar gyfer amser y tîm rheoli.
25. Talu'r holl gostau rhesymol i'r Brifysgol o ganlyniad i orfodi rhwymedigaethau'r Myfyriwr neu'r costau sy'n codi o'u torri. Mae manylion y costau yn Rheoliadau'r Breswylfa.
26. Os caiff y Ffioedd Llety eu talu mwy na 28 o ddiwrnodau'n hwyr, gall y Brifysgol derfynu'r Cytundeb Tenantiaeth a chymryd camau i droi'r myfyriwr o'r llety yn ogystal â chymryd camau gweithredol i adennill y ddyled. Ni fydd hyn yn rhyddhau'r myfyriwr o'r rhwymedigaeth ariannol, ac mae'n bosib y caiff costau ychwanegol eu codi o

ganlyniad i'r broses o gasglu'r ddyled a throir'r myfyriwr o'r llety. Caiff yr holl gostau cywir a rhesymol yr aiff y Brifysgol iddynt wrth wneud hyn eu hychwanegu at y swm a godir ar y myfyriwr.

4.2 ADRODD

27. Wrth gofrestru yn y llety: gwiriwch gyflwr y llety drwy'r rhestr eiddo ar-lein, ac adrodd unrhyw bryderon i'r Brifysgol o fewn saith niwrnod.
28. Adrodd unrhyw ddiffygion, difrod, gwaith atgyweirio angenrheidiol, neu fethiant yn y Gwasanaethau o fewn 24 awr o ddod yn ymwybodol ohonynt.
29. Caniatáu i'r Brifysgol, ar amser rhesymol ac ar ôl rhoi 24 awr o rybudd, fynd i mewn i'r Llety at ddiben ymweld, archwilio, a gwneud gwaith cynnal a chadw neu atgyweirio (nid oes angen rhoi rhybudd mewn argyfwng neu lle bo'r angen am waith atgyweirio wedi'i adrodd i ni gan y Myfyriwr).
30. Bydd y Myfyriwr yn gyfrifol am unrhyw ffi am wasanaeth neu gost sy'n codi o ganlyniad i fethu â chaniatáu i gontractwr wneud gwaith lle bo trefniadau rhesymol wedi'u gwneud.

4.3 LLETY

31. Peidio â'i ddefnyddio at unrhyw ddiben heblaw ystafell wely astudio.
32. Cadw'r Cynnwys ac (ynghyd â myfyrrwyr eraill) y Mannau Cyffredin / Cymunedol mewn cyflwr glân, taclus a diogel ac yn rhydd o rwystrau.
33. Peidio â dod a chelfi ychwanegol i'r Llety.
34. Peidio â rhannu, is-osod neu drosglwyddo ddeiliadaeth i unrhyw unigolyn.
35. Caiff ymwelwyr sy'n 18 oed neu'n hŷn aros am hyd at ddwy noson ar y tro hyd at dair gwaith y tymor. Yn achos myfyrrwyr sy'n byw mewn ardal un rhyw, rhaid i'r ymwelwyr fod yr un rhyw â nhw.
36. Ar ddiwedd pob cyfnod gosod, dylid gadael y Llety mewn cyflwr glân a thaclus, gan ddychwelyd unrhyw ddodrefn a darnau gosod a gosodiadau i'w safle gwreiddiol.
37. Rhoi gwybod i Wasanaethau Preswyl am unrhyw newid i'r Cytundeb Tenantiaeth, boed hynny'n gadael y llety, symud ystafell, tynnu yn ôl o'r brifysgol / gohirio astudiaethau ac ati.
38. Mae'r Tenant yn cytuno i ganiatáu i'r Landlord neu asiant ar ei ran fynd i mewn i'r Eiddo at ddibenion ei ddangos i ddarpar denantiaid, ar unrhyw amser rhesymol, trwy drefnu ymlaen llaw.

4.4 CYFFREDINOL

39. Peidio â newid, achosi, ychwanegu at, neu wneud unrhyw beth a all achosi difrod i'r llety megis:
40. Ymyrryd ag unrhyw offer diffodd tân, gosodiad trydanol neu beiriannau.
41. Achosi perygl o dân neu beryglu iechyd a diogelwch eraill mewn unrhyw fodd.
42. Rhoi unrhyw beth sy'n niweidiol neu sy'n debygol o greu rhwystr mewn unrhyw bibau neu ddraeniau.
43. Tynnu unrhyw beth oddi ar, gosod unrhyw beth ar, newid, niweidio neu geisio trwsio'r strwythur neu'r gorffeniad addurnol.
44. Achosi niwsans, digio, amharu, aflonyddu, neu darfu yn barhaus ar eraill.
45. Ni chaniateir i blant aros mewn preswylfeydd dros nos, oni bai am mewn preswylfeydd dynodedig.
46. Dod ag unrhyw anifail i'r Llety; ac eithrio cŵn tywys y deillion a chŵn clywed i'r byddar.
47. Alcohol: Ni chaniateir yfed alcohol mewn unrhyw llety 'dim alcohol' dynodedig.
48. Os bernir bod y llety'n 'Breswylfa Dawel,' gwaherddir chwarae cerddoriaeth uchel neu wneud sŵn yn gyfan gwbl rhwng 11:00pm ac 8:00am.
49. Rydych yn cytuno trwy hyn i fyw yn y llety yn unol â Thelerau ac Amodau'r Cytundeb Tenantiaeth a'r rheoliadau. Os profir unrhyw ymddygiad sy'n mynd yn groes i unrhyw ran o'r cytundeb, gellid dileu unrhyw gynnig llety a wneir gan Wasanaethau Preswyl, boed ar y pryd neu yn y dyfodol.

4.5 AMODAU ERAILL

50. Tenantiaeth i Fyfyrrwyr yw'r cytundeb hwn, ac mae hawl gan y Brifysgol adennill eiddo yn unol ag unrhyw sail a nodir yn Rhan II Cynllun 2 Deddf Tai 1988.
51. Mae'r Myfyriwr yn gyfrifol am ymddygiad pob ymwelydd/ymwelwyr a wahoddir neu fel arall.
52. Mae'r Myfyriwr drwy hyn yn awdurdodi'r Brifysgol i ddefnyddio ei ddata/data personol at bob diben cyfreithiol mewn perthynas â'r Cytundeb Tenantiaeth hwn (gan gynnwys adennill dyledion, atal troseddu, dyrannu ystafelloedd neu lle bo peryg difrifol o niwed i'r Myfyriwr neu eraill neu i eiddo'r Brifysgol).
53. Nid yw'r Brifysgol yn atebol i atgyweirio unrhyw ddifrod a achosir gan y Myfyriwr oni bai fod y Myfyriwr yn talu'r gost (bydd unrhyw daliadau ychwanegol ar y polisi yswiriant yn cael eu talu gan y Myfyriwr).
54. Nid yw'r Cytundeb Tenantiaeth hwn yn effeithio ar bwerau disgyblu'r Brifysgol.

55. Mae hawl gan y Brifysgol, ar gost i'r Myfyriwr, symud unrhyw eitem sy'n creu rhwystr, neu sy'n achosi perygl tân neu berygl i iechyd a diogelwch. Caiff eitem o'r fath, ar gais (oni bai ei bod yn ddarfodus), ei dychwelyd i'r Myfyriwr ar ddiwedd y Cytundeb Tenantiaeth.
56. Mae hawl gan y Brifysgol symud unrhyw eitem a adewir yn y Breswylfa ar ddiwedd y Cyfnod Preswyl ac nid oes rhaid iddi ddychwelyd yr eitem i'r Myfyriwr.
57. Yn unol ag Adran 48, Deddf Landlord a Tenant 1987, rhaid bod hysbysiadau dan y Cytundeb Tenantiaeth hwn mewn ysgrifen a rhaid bod cyfeiriad y Brifysgol at ddibenion y fath hysbysiadau wedi'i osod ar dudalen gyntaf y Cytundeb Tenantiaeth hwn.
58. Nid diben y Cytundeb Tenantiaeth hwn rhoi budd i unrhyw un nad yw'n rhan ohono.

5. RHWYMEDIGAETHAU'R BRIFYSGOL

59. Darparu'r Gwasanaethau.
60. Rhoi o leiaf 24 awr o rybudd i'r Myfyriwr cyn mynd i mewn i'r Llety ac eithrio mewn argyfwng, neu yn achos gwaith atgyweirio neu lanhau a hysbyswyd iddo.
61. Peidio â tharfau ar y cyfnod y mae'r Myfyriwr yn byw yn y Llety yn fwy na sy'n rhesymol.
62. Peidio â datgelu gwybodaeth bersonol a gasglwyd o'r Myfyriwr, heblaw fel y caniateir drwy gymal o'r Cytundeb Tenantiaeth hwn neu lle bo peryg difrifol o niwed i'r Myfyriwr, i eraill neu i eiddo'r Brifysgol. Ac eithrio lle bo'r myfyriwr wedi rhoi ei ganiatâd ar y ffurflen manylion cyswllt mewn argyfwng wrth wneud cais.
63. Darparu gweithdrefn gwyno llawn ynghylch llety, gwaith cynnal a chadw, a darpariaeth gwasanaethau. Ceir rhagor o fanylion gan y Gwasanaethau Preswyl.
64. Bydd y Gwasanaethau Preswyl/y Brifysgol yn darparu addasiadau rhesymol i'r cyfleusterau neu'r gwasanaethau a gynigir, i helpu unrhyw fyfyrwr sydd ag anghenion penodol o ran tai, cyhyd â bod yr holl wybodaeth hanfodol ar gael i'r Brifysgol o leiaf 6 wythnos cyn y dyddiad y cytunwyd y bydd y myfyriwr yn symud i mewn. Os nad yw'r wybodaeth ar gael o fewn yr amserlen hon, mae'n bosibl na fydd gan y Brifysgol ddigon o amser i wneud yr addasiadau ac felly mae'n cadw'r hawl i ohirio'r dyddiad y caiff y myfyriwr symud i mewn tan fod y gwaith wedi'i gwblhau, neu i ddileu'r cynnig o lety.
65. Yn ystod cyfnod y denantiaeth, rhaid i'r myfyriwr hysbysu'r Gwasanaethau Preswyl am unrhyw newid yn y gofal sydd ei angen o ran byw yn y llety, a rhaid iddo gynorthwyo'r Gwasanaethau Preswyl i roi strategaeth gofal newydd ar waith (os bydd y Gwasanaethau Preswyl yn barnu bod y fath strategaeth gofal newydd yn 'rhesymol'). Os bernir nad yw lefel y cymorth yn rhesymol i'r Brifysgol ei darparu, deallir na fydd gan y Brifysgol unrhyw ddewis ond i ganslo'r Cytundeb Tenantiaeth.

6. TORRI RHEOLIADAU'R BRESWYLFA YN DDIFRIFOL

Gellir gwahardd myfyriwr yn barhaol o breswylfa naill ai am ymddwyn yn barhaus mewn ffordd sy'n amharu ar hawliau myfyrwyr eraill, neu weithred unigol yr ystyrir ei bod wedi peryglu myfyrwyr eraill. Mae enghreifftiau o'r fath ymddygiad yn cynnwys: -

-) *Myfyriwr y profwyd ei fod yn swnllyd drwy'r amser*
-) *Difrodi/fandaliaeth fwriadol ddifrifol neu reolaidd*
-) *Myfyriwr sy'n parhau i fod yn aflonyddgar drwy'r amser*
-) *Bod â sylwedd rheoledig yn ei feddiant yn anghyfreithlon*
-) *Erlid neu aflonyddu myfyriwr preswyl arall yn groes i Bolisi Bwllo ac Aflonyddu'r Brifysgol*
-) *Camddefnyddio offer ymladd tân neu ganfod tân Codir ffi ychwanegol bob tro y bydd y myfyriwr yn ymddwyn fel hyn. Fodd bynnag bydd troseddwr cyson mewn perygl o gael eu gwahardd o'r breswylfa hefyd.*
-) *Unrhyw ymddygiad y bernir ei fod yn debygol o beryglu diogelwch preswylwyr eraill, staff, neu unrhyw berson arall sy'n defnyddio'r safle.*

- Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ail-leoli'r Myfyriwr i Lety Prifysgol arall yn ystod y Cyfnod Preswyl lle bo hynny'n rhesymol. Yn yr achos hwn, bydd hawl gan y Myfyriwr i derfynu'r Cytundeb Tenantiaeth hwn heb orfod cydymffurfio â'r amodau yn y cymal, yn hytrach nag ail-leoli, oni bai mai'r rheswm dros ail-leoli yw bod y Myfyriwr wedi torri un neu fwy o'i rwymedigaethau yn y Cytundeb Tenantiaeth hwn.
- Lle bo'r Brifysgol yn ail-leoli'r Myfyriwr oherwydd bod y Myfyriwr wedi torri un neu fwy o'i rwymedigaethau yn y Cytundeb Tenantiaeth hwn (neu lle bo'r Myfyriwr yn gwneud cais am ail-leoli) bydd y Myfyriwr yn talu ffi weinyddol o £350.00 i'r Brifysgol.
- Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dynnu'r llety yn ôl os yw'n darganfod bod gan fyfyrwr record droseddol sy'n ei gwneud yn amhriodol iddo fyw mewn amgylchedd cymunedol ar y campws. Ni fydd y

cynnig yn ddilys bellach. Rhaid datgelu pob mater o'r fath wrth gyflwyno cais. Y Rheolwr Dyrannu wnaiff yr asesiad cychwynnol; a phrosesir unrhyw apêl gan Bennaeth y Gwasanaethau Preswyl.

7.0 DOD Â THENANTIAETH I BEN

Rydych yn derbyn y telerau ac amodau hyn ar gyfer cyfnod cyfan y contract. Dim ond ar sail 1 i 3 fel y nodir isod y caniateir dod â chyfnod tenantiaeth i ben cyn dyddiadau'r cyfnod penodol:

66. Tynnu'n ôl o'r Brifysgol
67. Gohirio eich astudiaethau
68. Peidio â dechrau'r cwrs

Fyfyrrwyr sy'n gadael oherwydd rhesymau academiaidd neu bersonol, sy'n tynnu yn ôl o'u hastudiaethau ac yn gadael y Brifysgol, sylwer y bydd:

69. Angen cyflwyno Ffurflen Gais Rhyddhau o Lety i'r Gwasanaethau Preswyl
70. Angen cael cadarnhad o'r Gofrestrfa Academiaidd eich bod yn tynnu'n ôl/gohirio eich astudiaethau
71. Gennych chwe wythnos o gyflwyno'r ffurflen i adael eich llety. Bydd hyn yn eich galluogi i aros yn y llety er mwyn trefnu llety ar gyfer y dyfodol / gwneud trefniadau teithio.
72. Byddwch yn atebol i dalu rhent ac unrhyw gostau hyd at ddyddiad terfynu'r contract y cytunwyd arno.

Os ydych wedi gwneud cais a chanfyddir tenant newydd yn gynt, codir tâl amnewid tenantiaeth o £250 arnoch neu rent: pa un bynnag yw'r swm is. *E.e.Os ydych yn cyflwyno'r ffurflen ar ddydd lau 6 Tachwedd, cymerir eich hysbysiad o ddydd Gwener y 7 Tachwedd, a bydd angen i chi dalu'r rhent ar gyfer y chwe wythnos nesaf nes y byddwch yn cael eich rhyddhau ar ddydd Gwener 19 Rhagfyr. Oherwydd bod rhent yn cael ei gymryd bob tymor, bydd eich cyfrif yna'n cael ei addasu i adlewyrchu hyn a chaiff unrhyw ad-daliad neu gostau eu prosesu gan ein hadran gyllid.*

Cael eich rhyddhau o gontract ar sail:

73. Eich bod yn dymuno teithio o adref.
74. Eich bod yn dymuno symud i lety preifat.

Yn ystod cyfnod eich tenantiaeth, os ydych yn dymuno gofyn am ffurflen gais i gael eich rhyddhau o'r contract ar sail 4 a 5 uchod, caiff hyn ei drin fel cais yn unig. Nid ydym fel arfer yn rhyddhau myfyrrwyr o'r denantiaeth ar y seiliau hyn oni bai bod gennym fyfyrwyr, nad ydynt yn byw yn llety'r Brifysgol ar hyn o bryd, i gymryd cyfrifoldeb am weddill cyfnod y contract. OS yw'r Brifysgol yn llwyddiannus wrth ddod o hyd i denant amgen, ychwanegir ffi o £350 at eich ffioedd llety er mwyn talu am y costau gweinyddol.

PEIDIWCH Â llofnodi cytundeb tenantiaeth / ymrwymiad ariannol arall y tu allan i lety'r Brifysgol tra byddwch wedi'ch rhwymo o dan y denantiaeth hon, oni bai eich bod wedi'ch rhyddhau'n swyddogol o'ch contract. Os ydych yn gwneud hyn, byddwch yn atebol i dalu rhent ar gyfer y ddau gontract am gyfnod llawn y denantiaeth.

Caiff yr hysbysiad swyddogol o ran eich rhyddhau o'r contract ei gadarnhau gan Swyddfa Ganolog y Gwasanaethau Preswyl ar ffurf hysbysiad diwygio / ffurflen rhyddhau yn unig; bydd hyn hefyd yn rhoi amlinelliad o'ch rhwymedigaethau ariannol.

8.0 DERBYN Y CYTUNDEB TENANTIAETH HWN A'R AMODAU SY'N RHAN OHONO

Cewch dderbyn y cynnig ar-lein trwy fewngofnodi i'ch cyfrif llety; byddwch yn cytuno i delerau ac amodau'r Cytundeb Tenantiaeth hwn.

Mae unrhyw fyfyrwr sy'n derbyn y cynnig am le ym mhreswylfa'r Brifysgol yn gwneud hynny **gyda'r ddealltwriaeth bod yr ystafell yn cael ei chynnig a'i derbyn am gyfnod llawn y Cytundeb Tenantiaeth.** Ac eithrio amgylchiadau eithriadol, nid yw'n bosib rhyddhau myfyriwr o'r cytundeb yn ystod y flwyddyn.

"Drwy ychwanegu eich dyddiad geni a'ch rhif adnabod myfyriwr / llofnod isod, rydych yn cytuno i'r rhwymedigaethau a'r telerau a osodir drwy hyn a byddwch yn ymrwymo i gytundeb sydd wedi'i rwymo'n gyfreithiol"

Dim ond os nad ydych yn gallu derbyn y contract ar-lein y dylid cwblhau'r adran hon.

Llofnod y myfyriwr: _____ Student number: __ <SD:StudentID>

Dyddiad Geni'r Myfyriwr:
(dd/mm/yyyy) _____ Dyddiad: _____

Ar ran y Brifysgol: -

Cofrestrydd a Phennaeth Gweinyddiaeth

Ar gyfer ac ar ran: Prifysgol Abertawe, Gwasanaethau Preswyl, Campws Parc Singleton, Abertawe, SA2 8PG, Cymru, Y DU.

Cliciwch ar y dolenni isod i gael rhagor o wybodaeth:

[I gael gwybodaeth am gyrraedd cliciwch yma.](#)

[I gael gwybodaeth ariannol cliciwch yma.](#)

[Gwybodaeth ar gyfer: Rhieni a Gwarcheidwaid cliciwch yma.](#)

[Cliciwch yma i ymuno â'n rhwydweithiau cymdeithasol a gweld ein fideos.](#)

[Gellir dod o hyd i bolisiau, gweithdrefnau a Dogfennau Ategol drwy ddilyn y ddolen hon:](#)

[I fewngofnodi i'ch cyfrif llety cliciwch yma.](#)